

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 31ain, HYDREF 2016.

PRESENNOL

Cyng. Nerys Dobson (Cadeirydd), Cyn Hefin Martin, Cyng Alun Morris , Cyng Eifion Williams, Cyng John Owen, Cyng Mike Rayner, Cyng. Austin Roberts Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng Dewi Wynne Jones, Cyng Arwel Ll. Jones, Cyng Dewi Arfon Jones,

Cadarnhau'r Cofnodion

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y Medi 2016.

Materion yn codi o'r cofnodion

CAE CHWARAE MAENAN

Nododd M Rayner ei fod wedi bod yn Cae Chwarae Maenan i edrych a oes angen gosod canllaw wrth y stepiau sydd yng nghanol y Cae chwarae. Cadarnhaodd y bod angen canllaw ac y bydd y Mike Rayner a John Owen yn ymchwilio sut i osod y canllaw.

MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH

Cyng John Owen am edrych ar y ffens o amgylch y maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan gan fod y ffens wedi plygu mewn rhai manau.

PONT Y GARTH MAENAN

Cafwyd adroddiad gan Cyng Austin Roberts yn dilyn ei gyfarfod ar y safle Pont y Garth Maenan gyda Mr Gwyn Parry o'r Adran Pontydd i drafod cyflwr y Bont. Gwelodd mai cerbyd sydd wedi taro ochr y bont. Nid oedd yr Adran Pontydd, Cyngor Conwy yn gweld fod y gwaith ar y bont angen cael ei gwblhau ar fater o frys. Awgrymodd Cyng. Roberts y buasai y Cyngor Cymuned yn gallu cael contractwr lleol i bointio'r bont gydag ychydig o goncrit yn cryfhau'r fframwaith y bont. Pasiwyd y Cyngor mae dim gwaith y Cyngor Cymuned ydi mynd ddrwsio pontydd ac mae cyfrifoldeb yr Adran Pontydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw hyn.

ACHOS O DAFLU GWASTRAFF YN ANGHYFREITHIOL 'FLY TIPPING '

Cadarnhaodd Cyng Austin Roberts fod yr Adran Rheoledig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi clirio y gwastraff a gafwyd ei daflu yn anghyfreithiol ym Maenan.

GOSOD GAMFA NEWYDD AR LLWYBR RHIF 5 WRTH TYN Y CELYN, MAENAN

Cyng Hefin Martin wedi derbyn galwad gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda neges eu bod am osod y gamfa ar llwybr cyhoeddus rhif 5.

CYMERADWYO CYFRIFON Y CYNGOR SYDD YN DIWEDDU 31ain MAWRTH 2016.

Cymeradwyodd a derbyniodd y Cyngor y cyfrion sydd yn diweddu 31ain Mawrth, 2016. Arwyddodd y Cadeirydd ar Clerc y ddogfen archwilio i gadarnhau y cwblhau yr archwiliad. Codwyd rai sylwadau gan yr archwilywr allanol fel a ganlyn:-

- Adran 1 – yn y ddogfen archwiliad – Y Cyngor heb nodyn datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth.
- Dim llythyr penodi'r archwilydd mewnol.

- Y Broses Gyllidebu
- Y Gyllideb

UN LLAIS CYMRU

Derbyniwyd e-byst gan Un Llais Cymru yn gofyn am barn y Cyngor Cymuned am y cwmni arhwilydd allanol 'BDO' a pha anhawsterau a wynebwyd y Cyngor wrth anfon gwybodaeth a thystiolaeth iddynt.

Pasiwyd i'r clerc ymateb i e-bost Un Llais Cymru.

TRAFOD Y GYLLIDEB 2016/17

Trafodwyd y gyllideb a osodwyd i'r flwyddyn 2016/17 unwaith eto. Cafwyd adolygiad o'r gyllideb yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol. Arwyddwyd y Cadeirydd y gyfriflen Banc fel arfer a chadarnhawyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r gyllideb.

CYNLLUNIO

- 1) Cais Rhif 0/43259 Trosi adeiladau allanol yn llety gwyliau – Tanlan Farm, Llanrwst Road, Maenan LL26 0TU.
Penderfynwyd a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio yma.
- 2) Cais Rhif 0/43328 – Codi adeilad amaethyddol (Caniatad Blaenorol) Bryn Morfydd Mawr, Llanddaged, Llanrwst .
Penderfynwyd a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais yma.

CYNNAL A CHADW

1. Angen atgoffa Mr Gareth Jones o'r comisiwn coedwigoedd am y goeden Nadolig ar gyfer pentref Llanddaged. Bydd aelodau o'r Cyngor Cymuned yn cynorthwyo i'w gosod.
2. Nododd Cyng. Austin Roberts fod Kath Roberts o'r Sefydliad y Merched wedi cysylltu gyda ef i drafod gosod y mainc yng Nghae Cetyn, Llanddaged.